Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Prosbectws yr Ysgol
2026 - 2027

School Prospectus
2026 - 2027

Ysgol gymunedol sydd yn cynnig addysg ddwy-ieithog i blant rhwng tair ac unarddeg mlwydd oed yw Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant is a Welsh medium community primary school offering a bilingual education to children aged between three and eleven years of age.

Gweithio Gyda'n Gilydd

Gweithio wnawn gyda'n gilydd,
Yn ddisgyblion, staff a rhieni,
Gan groesawu'r gymuned ehangach,
Anelu at y sêr wnawn wrth ddysgu.

Dathlwn ein hiaith a'n Cymreictod,
Mewn ysgol sy'n ddiogel a chynhwysol,
Cawn amrywiaeth o brofiadau a heriau,
Byddwn barod, beth bynnag fo'n dyfodol.

LL*es er mwyn llwyddo*
Annibyniaeth
hu**N**aniaeth
Tegwch
pa**R**ch
Iaith Gymraeg
Safonau uchel
cydr**A**ddoldeb
gwyd**N**wch
Trysori talentau

Cynnwys *Contents*

5	**Gair o Groeso gan y Pennaeth** *A Word of Welcome from the Head Teacher*
6	**Datganiad ac Amcanion yr Ysgol** *The School's Mission Statement and Aims*
7	**Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol / Diogelu ac Amddiffyn Plant** *Ethos and Values of the School / Safeguarding and Child Protection*
8	**Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol / Diogelu ac Amddiffyn Plant** *Ethos and Values of the School / Safeguarding and Child Protection*
9	**Rhifau Ffôn a Chyfeiriadau defnyddiol** *Useful telephone numbers and addresses*
10	**Staff yr Ysgol** *School Staff*
11	**Y Diwrnod Ysgol / Addysg Feithrin** *School Times / Nursery Education*
12	**Dyddiadau'r Tymor / Dyddiadau Diwrnodau HMS** *School Term Dates / INSET Days*
13	**Gwyliau ac Absenoldebau** *Holidays and Absences*
14	**Y Wisg Ysgol** *School Uniform*
15	**Derbyn Disgyblion i'r Ysgol** *Admission of Pupils to School*
16	**Y Cwricwlwm a Dulliau Addysgu / Strwythur y Dosbarthiadau** *The Curriculum and Teaching Methods / Class Structures*
17	**Cwricwlwm Clwstwr Ysgol Llanhari** *The Ysgol Llanhari Cluster Curriculum*
18	**Cwricwlwm Clwstwr Ysgol Llanhari** *The Ysgol Llanhari Cluster Curriculum*
19	**Elfennau'r Cwricwlwm** *Curriculum Elements*
20	**Trefniadau Cwricwlaidd Arbennig** *Special Curricular Arrangements*
21	**Meysydd Dysgu a Phrofiad – Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu / Mathemateg a Rhifedd / Gwyddoniaeth a Thechnoleg** *Areas of Learning and Experience – Languages, Literacy and Communication / Mathematics and Numeracy / Science and Technology*
22	**Meysydd Dysgu a Phrofiad – Iechyd a Lles / Y Dyniaethau / Y Celfyddydau Mynegiannol** *Areas of Learning and Experience – Health and Wellbeing / Humanities / The Expressive Arts*
23	**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) / Addysg Gorfforol a Chwaraeon** *Relationships and Sexuality Education (RSE) / Physical Education and Games*
24	**Y Celfyddydau Mynegiannol – Cerddoriaeth / Celf / Ffilm a Chyfryngau Digidol / Dawns a Drama** *Expressive Arts – Music / Art / Film and Digital Media / Dance and Drama*
25	**Y Dyniaethau – Hanes / Daearyddiaeth / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg / Astudiaethau Busnes a Chymdeithasol** *Humanities – History / Geography / Religion, Values and Ethics / Business and Social Studies*
26	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg – Gwyddoniaeth / Dylunio a Thechnoleg / TGCh** *Science and Technology – Science / Design and Technology / ICT*
27	**Mathemateg a Rhifedd – Y System Rif / Algebra / Geometreg / Ystadegau** *Mathematics and Numeracy – The Number System / Algebra / Geometry / Statistics*
28	**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – Cymraeg a Saesneg / Iaith Arwyddion Prydain / Ieithoedd Rhyngwladol / Codio** *Languages, Literacy and Communication – Welsh and English / British Sign Language / International Languages / Coding*
29	**Iechyd a Lles – Iechyd a Lles y Corff / Profiadau, Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol / Penderfyniadau a Gweithredoedd / Dylanwadau Cymdeithasol / Cydberthnasau Iach** *Health and Wellbeing – Physical Health & Wellbeing / Experiences, Mental Health & Emotional Wellbeing / Decisions and Actions / Social Influences / Healthy Relationships*

30	**Trafnidiaeth Ysgol / Prydau Ysgol / Llaeth / Salwch a Damweiniau / Rhoi Meddyginiaeth** *School Transport / School Meals / Milk / Illness and Accidents / Administering Medicines*
31	**Iechyd a Diogelwch / Cwynion / Cyfleoedd Cyfartal / Darpar Rieni / Ymweld â'r Ysgol** *Health and Safety / Complaints / Equal Opportunities / Prospective Parents / Visiting the School*
32	**Ffônau Symudol / Cymdeithas Rhieni ac Athrawon / Absenoldebau Disgyblion / Cwyno am y Cwricwlwm** *Mobile Phones / Parent and Teacher Association / Pupil Absences / Complaints about the Curriculum*
33	**Clybiau Carco cyn ac ar ôl Ysgol / Cysylltiadau â Rhieni a'r Gymuned** *Before and After School Clubs / Parental and Community Links*
34	**Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd** *Transition to Secondary School*
35	**Asesu Ac Adrodd yn ôl** *Assessment and Reporting*
36	**Asesu Ac Adrodd yn ôl** *Assessment and Reporting*
37	**Gweithgareddau All-gyrsiol** *Extra-curricular Activities*
38	**Gwersi Offerynol / Ymweliadau Addysgol** *Instrumental Lessons / Educational Visits*
39	**Polisi Codi a Dileu Taliadau** *Charging and Remissions Policy*
40	**Y Defnydd o'r Iaith Gymraeg** *The Use of the Welsh Language*
41	**Addysg Gyrfaoedd** *Careers Education*
42	**Data Presenoldeb** *Attendance Data*

Croeso *Welcome*

Mae dewis yr ysgol gywir i'ch plentyn yn benderfyniad anodd a hollbwysig i'w wneud. Mae mwyafrif y rhieni am geisio sicrhau yr addysg orau bosibl i'w plentyn/plant, disgwyliadau a safonau cyrhaeddiad uchel, lefel dda o ddisgyblaeth yn ogystal ag awyrgylch bleserus, gyfeillgar, hapus, gydweithredol a diogel. Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant, credwn y gallwn gynnig pob un o'r nodweddion hyn. Rydym yn ymfalchio yn yr addysg eang, gytbwys a llawn, y profiadau a'r cyfleoedd cyfartal a ddarparwn, yn ogystal â'r gefnogaeth a gynigir i bob disgybl, ac yn falch o lwyddiant ein disgyblion y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Ceisiwn ein gorau glas i "weithio gyda'n gilydd er mwyn y plant" ar bob achlysur.

Agorwyd 'Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant' ym 1976 mewn hen ysgol gynradd yng nghanol pentref Llantrisant. Dim ond deugain o ddisgyblion oedd yn mynychu'r ysgol yn y dyddiau cynnar, ond yn raddol tyfodd yr ysgol nes bod dros 200 o ddisgyblion. Ar ddechrau Tymor yr Haf 2005, symudodd yr ysgol gyfan i adeilad newydd sbon yn ardal Meisgyn, ger Pontyclun, ac agorwyd yr ysgol newydd yn swyddogol ar Orffennaf 15fed, 2005, gan y Cynghorydd Mike Forey a Syr Gareth Edwards. Mae ymwelwyr â'r ysgol yn canmol nid yn unig y croeso a gant, ond y cyfleusterau gwych - lleoliad agored a braf, digonedd o le i bawb, ffenestri mawr a goleuni naturiol yn llifo drwyddynt, meysydd chwarae gwastad a diogel, cwrt caled ar gyfer chwarae pêl rwyd a phêl droed, yr offer dechnolegol ddiweddaraf, lifft i bob llawr, neuadd fawr â llwyfan, cyfleusterau i bob dosbarth yn ogystal ag ystafell ar wahân ar gyfer y gymuned leol. Erbyn hyn, mae tua 200 o ddisgyblion mewn 8 o ddosbarthiadau.

Gwerthfawrogwn yn fawr gefnogaeth a chydweithrediad rhieni a chyfeillion yr ysgol wrth i ni gydweithio i sicrhau parhad o'r disgwyliadau a'r safonau uchel sy'n nodweddiadol o'r ysgol ers ei sefydliad dros bedwar deg o flynyddoedd yn ôl. Cysylltwch â ni yn yr ysgol ynghylch unrhyw bryder am fywyd a gwaith yr ysgol.

R O'Neil
Pennaeth

Choosing the right school for your child is a difficult and vitally important decision to make. Most parents try to ensure the best possible education for their child / children, high expectations and standards, a good level of discipline in addition to a pleasant, friendly, happy, co-operative and safe environment. At Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant, we believe we can offer all these features. We pride ourselves on the broad, balanced and full education, the experiences and equal opportunities we offer, in addition to the support offered to all pupils and we are proud of the successes of our pupils in and out of school. We try our very best to "work together for the sake of the children" at every opportunity.

'Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant' opened in 1976 in the old primary school in Llantrisant village. There were only around forty pupils in the early days, but gradually the school grew to over 200 pupils in number. At the beginning of the Summer Term 2005, the whole school moved to a new building in the Miskin area, near Pontyclun, and the school was officially opened on July 15th, 2005, by Councillor Mike Forey and Sir Gareth Edwards. Visitors to the school not only praise the welcome they receive, but also the wonderful resources and amenities - the open and spacious position, plenty of space for all, large windows with natural light flooding through, level and safe playing areas, a hard court for net-ball and football practice, the latest technology equipment, a lift to all floors, a large hall with stage, resources and equipment for all classes as well as a separate room for the local community's use. By now the school has around 200 pupils across eight classes.

We very much appreciate parents' and friends' support and cooperation as we work together to ensure the continuation of the high expectations and standards that are typical of the school since it was established over forty years ago. Contact us at school if you would like to discuss any concerns regarding the daily life and the work of the school.

R O'Neil
Head Teacher

Datganiad Cenhadaeth yr Ysgol

Gweithio gyda'n gilydd er mwyn y plant

Amcanion

- **Magu hunan-barch, parch tuag at eraill a pharch tuag at yr amgylchfyd yn ein disgyblion;**
- **Datblygu, yn ein disgyblion, deimlad o falchder at eu hiaith a'u diwylliant o fewn yr ysgol a thu hwnt;**
- **Magu parch tuag at anghenion, hawliau, credoau a diwylliannau eraill;**
- **Mynnu safon uchel o ymddygiad y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol ymysg ein disgyblion er mwyn iddynt ddatblygu yn unigolion hyderus, annibynnol;**
- **Darparu yr addysg orau bosib i'n disgyblion trwy gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys sy'n arwain at 'Dyfodol Llwyddiannus';**
- **Darparu awyrgylch bleserus, ysgogol a hapus i'r disgyblion lle y byddant yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu ble bynnag y bo;**
- **Codi ymwybyddiaeth ein disgyblion am y byd gwaith;**
- **Sicrhau cyfleoedd cyfartal a thriniaeth deg i holl disgyblion yr ysgol;**
- **Annog ein rhieni i gefnogi amcanion, polisiau, gweithdrefnau, safonau a disgwyliadau'r ysgol trwy gymryd rôl weithredol yn yr addysg a dderbynir gan eu plant;**
- **Cefnogi'r plant i fod yn ddinasyddion iach yn gorfforol ac yn feddyliol.**

School Mission Statement

Working together for the sake of the children

Aims

- *Develop, in our pupils, self-respect, respect towards others and a respect towards our environment;*
- *Develop, in our pupils, a sense of pride towards their language and culture within school and beyond;*
- *Nurture respect towards others' needs, rights, beliefs and cultures;*
- *Insist upon the highest standards of behaviour in our pupils both within and outside the school so that they develop as confident, independent individuals;*
- *Provide the best possible education for our pupils by delivering a wide and balanced curriculum which leads to a 'Successful Future';*
- *Provide a pleasant, stimulating and happy environment for the pupils where they will feel safe and eager to learn wherever they may be;*
- *Raise our pupils' awareness of the world of work;*
- *Ensure equal opportunities and fair treatment for all pupils;*
- *Encourage all parents to support the aims, policies, systems, standards and expectations of the school by playing an active role in the education received by their children;*
- *To support the children to be healthy citizens both physically and mentally.*

Ethos a Gwerthoedd yr Ysgol

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant yn gymuned llawn gofal lle mae pob unigolyn yn bwysig. Mae pob disgybl yr un mor bwysig ac yr un mor werthfawr.

Ceisia'r ysgol helpu pobl ifanc i feithrin y wybodaeth, y sgiliau, yr hunan-hyder a'r ymwybyddiaeth er mwyn iddynt fedru cyfrannu'n llawn at gymdeithas a datblygu yn ysbrydol, yn foesol, yn ddiwylliannol a chymdeithasol drwy'r cwricwlwm a gweithgareddau eraill yr ysgol. Caiff ethos yr ysgol ei lywio drwy anelu at sicrhau gofal, ystyriaeth, a pharch rhwng y disgyblion, y staff a'r gymuned. Disgwyliwn i ddisgyblion o bob oedran ymddwyn mewn modd briodol tra yn yr ysgol gan ddangos lefel uchel o hunan- barch, parch tuag at eraill o'u cwmpas yn ogystal â pharch tuag at yr ysgol, gan wneud eu gorau i gadw enw da yr ysgol ar bob achlysur.

Nod cwricwlwm yr ysgol yw hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolion. Mae gan bob aelod o staff yr ysgol, staff addysgu a chynorthwyol, gyfrifoldeb am ddisgyblaeth a gofal bugeiliol y disgyblion.

Mae rheolau a disgwyliadau wedi eu harddangos ym mhob dosbarth, yn ogystal â mewn ardaloedd cyhoeddus o gwmpas yr ysgol i atgoffa'r disgyblion o'r hyn a ddisgwylir ohonynt. Bydd peth amrywiaeth ar reolau dosbarth, gan mai trwy drafodaeth â'r disgyblion eu hunain y dewisir y rheolau. Bydd y camau gwobrwyo a'r camau cosbi yr un peth i'r mwyafrif helaeth ar draws yr ysgol. Defnyddia'r staff ganmoliaeth llafar, sticeri brolio, sêr, neu sylwadau positif i wobrwyo disgyblion am ymdrechu i wella gwaith neu ymddygiad, a dewisir disgyblion o bob dosbarth i dderbyn 'Seren yr Wythnos' yn y gwasanaeth ysgol gyfan ar fore Gwener. Dyma enghreifftiau o'r camau cosbi a ddefnyddir yn yr ysgol yn dilyn trosedd gan ddisgybl:

- **rhybudd llafar oddi wrth aelod o staff**
- **symud disgybl i weithio ar wahan**
- **aros i mewn am gyfnod yn ystod amser chwarae**
- **anfon y disgybl i weithio mewn dosbarth arall**
- **anfon y disgybl i weld y Dirprwy-Bennaeth**
- **anfon y disgybl i weld y Pennaeth**
- **diarddel y disgybl o'r ysgol dros dro, neu yn barhaol (am drosedd ddifrifol iawn)**

Gwna holl staff yr ysgol, staff addysgu a chynorthwyol, bob ymdrech i geisio atal 'bwlio' y tu mewn a'r tu allan i'r dosbarthiadau. Ceisiwn annog disgyblion i drafod gydag aelodau staff pan fyddant yn cael eu poeni gan blant eraill yn llafar neu yn gorfforol. Nid yw'r ysgol yn cefnogi nac yn esgusodi rhieni sydd yn annog eu plentyn/plant i 'dalu'r pwyth yn ôl' pan fydd disgyblion yn cweryla neu'n 'cwympo mas'. Caiff y disgyblion eu hatgoffa yn rheolaidd trwy y gwersi dosbarth, trwy wasanaethau yn ogystal â thrafodaethau dosbarth i ymddwyn â pharch a charedigrwydd tuag eraill ar bob achlysur. Gwna'r staff ymdrech i ymchwilio i unrhyw ddadl rhwng disgyblion yn drylwyr a theg. Mae polisiau cynhwysfawr ynghylch 'Disgyblaeth ac Ymddygiad' a 'Gwrth Fwlio' ar gael i'w darllen yn yr ysgol.

Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mae gan staff YGGG Llantrisant ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion, mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig i atal camdriniaeth ac esgeulustod drwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i blant a phobl ifanc. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant. Os oes pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, mae dyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant yr Awdurdod Lleol, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr ysgol. Gall Cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â chanllawiau yr Awdurdod Lleol. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio.

Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Mae'r ysgol yn dilyn Protocol yr Awdurdod Lleol a phe bai cyhuddiad yn erbyn, staff fe fyddai'r ysgol yn dilyn camau gweithredu'r Awdurdod Lleol.

Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig: Mr R O'Neil
Dirprwy Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Dynodedig: Miss S Williams
Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 3: Miss R Jones
Swyddog Diogelu ac Amddiffyn Plant Lefel 3: Mrs L Morrish
Llywodraethwr Diogelu ac Amddiffyn Plant: Dr K Vickers Hulse

Ethos and Values of The School

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant is a caring community in which all individuals matter. Each pupil is equally important and equally valued.

The school strives to help young people develop the knowledge, skills, self-confidence and awareness to contribute fully to society. The school's ethos is shaped by working towards care, consideration and respect being shown between pupils, staff and the community. We expect pupils of every age to behave in an appropriate manner whilst at school and show a high level of self-respect, respect towards others around them in addition to respect for the school, whilst trying their best to uphold the good name of the school at every opportunity.

The aim of the school's curriculum is to promote spiritual, social, moral and cultural development of the pupils and prepare them for the opportunities, responsibilities and life experiences as adults.
Every member of staff at the school, teaching staff and support staff, has responsibility for pupil discipline and pastoral care inside the school as well as outside on the playgrounds.

Rules and expectations are displayed in every class, in addition to public areas around the school in order to remind pupils of what is expected of them. Class rules will vary from class to class as they are drawn up through discussion with the pupils themselves. The rewarding and punishment steps are similar across the school. Staff use verbal praise, reward stickers, stars or positive comments to reward pupils for their efforts to improve their work or behaviour, and pupils from each class are chosen to receive a "This Week's Conscientious Worker" certificate in the whole school assembly on Friday morning. Following, are examples of punishments used in school following incidents of bad behaviour by a pupil:

- *a verbal warning from a member of staff*
- *moving the pupil to sit alone to work*
- *staying indoors for a period at playtimes*
- *moving the pupil to another class to work*
- *sending the pupil to the Deputy Head Teacher*
- *sending the pupil to the Head Teacher*
- *suspending the pupil temporarily, or permanently (for a serious offence)*

Each member of staff, teaching staff and support staff, make every effort to try and prevent 'bullying' both within the classroom and outside. We try to encourage pupils to discuss matters with members of staff when they are being worried by other children whether it be verbally or physically. The school does not support or excuse parents who encourage their children to "pay back" other pupils when they quarrel or "fall out". Pupils are frequently reminded to behave appropriately and always show respect and kindness towards others through lessons in class and assemblies as well as class discussions. Staff make every effort to investigate thoroughly and fairly any disagreements between pupils. There are comprehensive policies regarding 'Discipline and Behaviour' and 'Bullying' made available for you to read at school.

Safeguarding and Child Protection

Each member of staff at YGGG Llantrisant is responsible for the protection and safety of children at the school. If there are any concerns regarding child neglect or physical, emotional or sexual abuse, then it's the staff's duty, in accordance with the Local Authority's Child Protection Procedure, to raise the matter with the School's Child Protection Coordinator. The school's coordinator can confer with a professional colleague, as well as with a relevant agency, such as the Health and Social Services. Following these discussions, the School Coordinator may have to officially refer the child the Social Services Department, in accordance with the Local Authority's guidelines and protocol. The Social Services are responsible for deciding whether they need to act or not.

Due to the nature of some allegations, it is not always appropriate to discuss matters with the parent before referring a child. The Social Services and the Police are responsible for investigating into the allegations. School follows the Local Authority's protocol and should there be an accusation against a member of staff, the school will follow the Local Authority's procedures.

Designated Safeguarding & Child Protection Officer: ***Mr R O'Neil***
Deputy Safeguarding & Child Protection Officer: ***Miss S Williams***
Level 3 Safeguarding & Child Protection Officer: ***Miss R Jones***
Level 3 Safeguarding & Child Protection Officer: ***Mrs L Morrish***
The Link Governor for Child Protection: ***Dr K Vickers-Hulse***

Manylion Cyswllt *Contact Details*

Pennaeth *Head Teacher*	Mr R O'Neil
Dirprwy Bennaeth *Deputy Head Teacher*	Miss S Williams
Cyfeiriad yr Ysgol *School Address*	Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn / Miskin, Pontyclun. Rhondda Cynon Taf. CF72 8TL
Rhif Ffôn *Telephone Number*	01443 237837
Cyfeiriad E-bost a Gwefan *Email & Website Address*	admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru www.yggglantrisant.com
Instagram *Instagram*	@yggglantrisant
Yr Awdurdod Addysg *Education Authority*	**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** **Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon.** **CF45 4SN** *Rhondda Cynon Taf County Borough Council* *Valleys Innovation Centre, Navigation Park, Abercynon.* *CF45 4SN*
Rhif Ffôn *Telephone number*	01443 744000
Cadeirydd y Llywodraethwyr *Chair of Governors*	Dr K Vickers-Hulse Karan.Vickers-Hulse@yggglantrisant.rctcbc.cymru
CADY *ALNCo*	Miss R Jones ALNCO@yggglantrisant.rctcbc.cymru

Staff yr Ysgol *School Staff*

Pennaeth
Head Teacher

Mr R O'Neil

Dirprwy Bennaeth
Deputy Head Teacher

Miss S Williams

Staff Addysgu
Teaching Staff

Cam Cynnydd 1 *Progression Step 1*
Mrs L Jones (**CALU** / HLTA)
Mrs C Critchell (**CALU** / HLTA)
Mrs E Burrows

Cam Cynnydd 2 *Progression Step 2*
Mrs L Morrish
Mrs S Flower
Miss R Jones

Cam Cynnydd 3 *Progression Step 3*
Miss R Jones
Mrs A Jenkins
Miss S Williams

Cynorthwywyr Addysgu
Teaching Assistants

Mr B Richards
Mrs J Smith
Mrs C Terrell
Mr D Jones
Mrs C Cowles
Miss S Davies

Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch
Higher Level Teaching Assistants

Mrs L Jones
Mrs C Critchell

Cynorthwyydd Ymyraethau
Interventions Support Assistant

Mrs C Griffiths

Clerc yr Ysgol
School Clerk

Mrs S Krieger

Gofalwr
Caretaker

Mr A Pritchard

Goruchwylwyr Amser Cinio
Lunchtime Supervisors

Mrs L Jones
Mrs G Clatworthy
Mrs C Cowles
Mrs C Terrell
Miss S Davies

Y Diwrnod Ysgol *School Times*



Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 *Nursery, Reception, Year 1 and Year 2*
(Clwydi ar agor am 8:50 y.b. / *Gates open at 8:50 a.m.*)

Bore / *Morning* 9:00 a.m. - 12:00 p.m.
Prynhawn / *Afternoon* 1:15 p.m. - 3:30 p.m.

Blynyddoedd 3 i 6 *Years 3 to 6*
(Clwydi ar agor am 8:50 y.b. / *Gates open at 8:50 a.m.*)
Bore / *Morning* 9:00 a.m. - 12:15 p.m.
Prynhawn / *Afternoon* 1:15 p.m. - 3:30 p.m.

Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Bydd y staff ar ddyletswydd yn eu dosbarthiadau o 8:50 y.b. ymlaen. Agorir clwydi'r ysgol am 8:50 y.b. i'r plant fynd i'w dosbarthiadau i ddechrau paratoi am y diwrnod prysur fydd o'u blaenau. Mae'r sesiwn gofrestru yn dechrau am 9:00 y.b. a gwersi yn fuan wedi hynny. Os bydd disgybl yn hwyr am ryw reswm, gofynnir i rieni fynd â nhw i Brif Fynedfa'r Ysgol ar ôl 9:00 y.b. a chwblhau'r system arwyddo i mewn 'Cyrraedd yn Hwyr'.
Children are expected to arrive at school on time. Staff are on duty in their classes from 8:50 a.m. onwards. The school gates are opened at 8:50 a.m. for the children to enter their classrooms to prepare for their busy day ahead. The registration session starts at 9:00 a.m. with lessons commencing shortly after this. If a pupil arrives late for any reason, parents are asked to accompany them to the Main Entrance to gain access after 9:00 a.m. and to sign the child/children into the building in the 'Late Arrivals' signing in system.

Addysg Feithrin *Nursery Education*



Mae'r ysgol yn cynnig hanner diwrnod o addysg feithrin eleni - 15 awr yr wythnos, 9:00 yb tan 12:00 yp bob dydd. Mae'r Bwrdd Llywodraethu yn adolygu trefniadau'r Dosbarth Meithrin yn flynyddol wedi i'r ysgol dderbyn y gyllideb newydd fis Ebrill. Cynigir darpariaeth gofleidiol bob prynhawn gan 'Flourish'. Ceir rhagor o fanylion ar wefan yr ysgol.
School offers a half day Nursery provision this year - 15 hours a week 9:00 am to 12:00 pm each day. The Governing Body reviews these arrangements annually once the school receives its budget in April of each year. A wraparound provision is in place each afternoon provided by 'Flourish'. Further details can be found on the school website.

- **Gall unrhyw blant sy'n troi'n bedair oed rhwng Medi 1af a Rhagfyr 31ain dderbyn addysg feithrin llawn amser yn ystod Tymor y Gwanwyn.**
- **Gall unrhyw blant sy'n troi'n bedair oed rhwng Ionawr 1af a Mawrth 31ain dderbyn addysg feithrin llawn amser yn ystod Tymor r Haf.**
- **Bydd unrhyw blant sy'n troi'n bedair oed rhwng Ebrill 1af ac Awst 31ain yn derbyn addysg llawn amser yn ystod yn y flwyddyn Derbyn.**

- *Any children who turn four between September 1st and December 31st are entitled to receive full- time nursery education during the Spring Term.*
- *Any children who turn four between January 1st and March 31st are entitled to receive full-time nursery education during the Summer Term.*
- *Any children who turn four between April 1st and August 31st receive full-time education during the Reception year.*

Dyddiadau'r Tymor 2026-2027 *School Term Dates 2026-2027*



	Tymor yn Dechrau *Term Begins*	Hanner Tymor yn Dechrau *Half Term Begins*	Hanner Tymor yn Gorffen *Half Term Ends*	Tymor yn Gorffen *Term Ends*
Hydref Autumn 2026	**Dydd Mawrth** **Medi 1** *Tuesday* *September 1*	**Dydd Llun** **Hydref 26** *Monday* *October 26*	**Dydd Gwener** **Hydref 30** *Friday* *October 30*	**Dydd Gwener** **Rhagfyr 18** *Friday* *December 18*
Gwanwyn Spring 2027	**Dydd Llun** **Ionawr 4** *Monday* *January 4*	**Dydd Llun** **Chwefror 8** *Monday* *February 8*	**Dydd Gwener** **Chwefror 12** *Friday* *February 12*	**Dydd Gwener** **Mawrth 19** *Friday* *March 19*
Haf Summer 2027	**Dydd Llun** **Ebrill 5** *Monday* *April 5*	**Dydd Llun** **Mai 31** *Monday* *May 31*	**Dydd Gwener** **Mehefin 4** Friday June 4	**Dydd Mawrth** **Gorffennaf 20** Tuesday July 20

Gŵyl y Banc Mis Mai - Dydd Llun Mai 3, 2027
May Day Bank Holiday - Monday May 3, 2027

Diwrnodau HMS 2026-2027 *INSET Dates 2026-2027*

Bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS.
All schools in Wales will close for 6 INSET days.

01.09.26	**02.09.26**	**12.10.26**	**04.01.27**	**19.07.27**	**20.07.27**

Gwyliau ac Absenoldebau *Holidays and Absences*

Gofynnir yn garedig i riant / gwarcheidwad lenwi'r ffurflen ar-lein hon o leiaf 4 wythnos cyn y cyfnod o absenoldeb y mae'n gofyn amdano.

Mae'r Awdurdod Lleol a'r ysgol yn cynghori rhieni yn gryf na ddylai disgyblion fynd ar wyliau yn ystod tymor yr ysgol. Dim ond yr ysgol sydd â'r hawl i gymeradwyo absenoldeb yn ystod y tymor. Bydd canran presenoldeb a chyrhaeddiad academaidd y disgybl yn cael eu hystyried yn ystod y broses o gymeradwyo unrhyw wyliau / absenoldebau.

Gall yr ysgol awdurdodi hyd at 10 diwrnod o wyliau mewn blwyddyn ysgol gan ystyried canran presenoldeb cyfredol a chyrrhaeddiad y disgybl. Targed presenoldeb yr ysgol yw 95% a defnyddir y ganran hon fel meincnod i unrhyw benderfyniad tra'n awdurdodi gwyliau / absenoldebau.

Os bydd canran presenoldeb plentyn yn is na'r targed, ni fydd yr ysgol yn awdurdodi gwyliau / absenoldebau. Dim ond ceisiadau am wyliau sydd yn dod o dan diffiniad 'amgylchiadau eithafol' polisi'r Awdurdod Lleol fydd yn cael eu hystyired a'u hawdurdodi.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd eich cais am wyliau / absenoldeb yn cael ei gymeradwyo - bydd pob cais yn cael ei ystyried ar ei rinweddau ei hun, ac mae'n bosibl y caiff ei wrthod.

We kindly ask that this online form is completed by a parent / carer and not less than four weeks prior to the period of absence required.

The Local Authority and school strongly advise parents that pupils should not take holidays in term time. Approval of absence is entirely at the discretion of the school. Attendance percentage to date and general academic achievement will be considered in the holiday / absence approval process.

School is able to authorise up to ten holiday days per academic year, considering the pupil's current attendance percentage and academic attainment. The school's attendance target percentage is 95% and this is used as a benchmark for any decisions when authorising holiday / absence requests.

If a pupil's attendance falls below this target, holidays will be unauthorised. Only holiday / absence requests which fall into the Local Authority's policy of 'exceptional circumstances' will be considered and approved.

Please do not assume that your holiday / absence request will be authorised – each request will be considered on its own merits and may be unauthorised.

Gwybodaeth yr Awdurdod Lleol *Local Authority Information*

Absenoldebau yn ystod tymor yr ysgol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Absences during term time – Rhondda Cynon Taf County Borough Council

Dirwyon am beidio â mynd i'r ysgol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Non-Attendance at School - Fixed Penalty Notices | Rhondda Cynon Taf County Borough

Gwefan yr Ysgol *The School's Website*

Presenoldeb
Attendance

Gwyliau ac Absenoldebau
Holidays and Absences



Y Wisg Ysgol *School Uniform*

- **Crys gwyn neu flows wen** *White shirt or blouse*
- **Trowsus neu sgert lwyd** *Grey trousers or skirt*
- **Tei borffor ac arian** *Purple and silver stripe tie*
- **Siwmper neu gardigan borffor** *Purple jumper or cardigan*
- **Esgidiau ysgol du** *Black school shoes*



Tymor yr Haf *Summer Term:*

- **Crys gwyn gyda thei neu grys polo gyda logo'r ysgol arno (dim tei)** *White shirt with tie or polo shirt with school logo (no tie)*
- **Trowsus, sgert neu drowsus byr llwyd** *Grey trousers, skirt or shorts*
- **Ffrog gingam borffor a gwyn** *Purple and white gingham dress*



Diwrnodau Addysg Gorfforol *PE Days:*

- **Jogyrs Llwyd neu borffor** *Grey or purple Joggers*
- **Crys polo gwyn neu borffor gyda logo'r ysgol arno** *White or Purple Polo shirt with school logo*
- **Trowsus byr Addysg Gorfforol** *Sports Shorts*
- **Treinyrs** *Trainers*

Ni ddylid gwisgo gemwaith i'r ysgol *No jewellery should be worn to school*

Prynwch wisg ysgol trwy ymweld â / *Purchase school uniform by visiting:*

Leonard Hudson
TEAMWEAR

http://www.leonardhudson.co.uk/parents/uniform/Ysgol_Gynradd_Gymraeg_Llantrisant_CF72_8TL

Derbyn Disgyblion i'r Ysgol *Admission of Pupils to the School*

Cynigir lleoedd i ddisgyblion yn yr ysgol yn ôl meini prawf Awdurdod Addysg Rhondda Cynon Taf a ddatganir yn y fersiwn diweddar o'u llyfryn "Dechrau Ysgol". Trefnir y dosbarthiadau yn ôl oedran y plentyn. Nid oes sicrwydd y bydd carfannau o blant yn aros gyda'i gilydd o flwyddyn i flwyddyn wrth iddynt deithio i fyny'r ysgol. Ar adegau, bydd dosbarthiadau oedrannau cymysg yn yr ysgol. Yn gyffredinol, y plant hynny sy'n byw yn nhalgylch draddodiadol yr ysgol fydd yn cael cynnig lleoedd gyntaf. Dosberthir lleoedd drwy gymhwyso y meini prawf a ganlyn :

1. **Plant sy mewn gofal (plant dan adain gofal y Cyngor)**
2. **Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol sydd â brawd neu chwaer hŷn ynddi ac sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan mae'r cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ym Medi 2025.**
3. **Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ond does dim brawd neu chwaer hŷn gyda nhw ynddi.**
4. **Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, ac sydd â brawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol ac sy'n byw yn yr un cyfeiriad â nhw pan mae'r cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ym Medi 2025.**
5. **Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol.**

Os oes lleoedd ar gael, gall yr ysgol gynnig addysg rhan amser o ddechrau y tymor yn dilyn penblwydd y plentyn yn dair oed. Fel arall, gall plant tair oed a drosodd dderbyn addysg o'r Medi yn y flwyddyn academaidd pryd y byddant yn bedair oed.

Cedwir rhestr aros o enwau plant sydd yn dymuno lle yn yr ysgol, ac 'rydym yn annog rhieni i roi enw eu plentyn ar y rhestr hon mor fuan â phosibl ar ôl iddo/iddi gael ei eni/geni. Mae hyn yn helpu blaengynllunio, yn galluogi'r ysgol i gysylltu â rhieni yn rhwydd wrth i amser dechrau'r ysgol agosau, ond nid yw'n gwarantu lle yn yr ysgol.

Dylai rhieni sy'n ansicr ynghylch talgylch yr ysgol neu'r meini prawf gysylltu ag Adran Mynediadau Disgyblion yr Awdurdod Lleol - 01443 281111 neu ebostio schooladmissions@rctcbc.gov.uk

Pupils are offered places at the school according to Rhondda Cynon Taf Education Authority's admissions criteria as stated in the current version of their "Starting Schools" booklet. ***All classes are arranged strictly by date of birth. It is not guaranteed that cohorts of children will move up through the school, year on year, together. At times, we have mixed age classes at school.*** *Generally, the children who live in the school's traditional local area will be offered the available places first. Places will be allocated by applying the following criteria:*

1. *Children in public care (looked after children)*
2. *Children living inside the school's catchment area, who will have older siblings attending the school when they enter*
3. *Children living inside the school's catchment area who do not have older siblings attending the school*
4. *Children living outside the school's catchment area, who will have older siblings attending the school when they enter*
5. *Children living outside the school's catchment area, who do not have older siblings attending the school*

If places are available, the school may be able to offer part time education from the beginning of the term following the child's third birthday. Otherwise, children aged three years and over usually access education from the September of the academic year they attain the age of four.

A waiting list of children wishing to have a place at the school is kept and parents are encouraged to place their child's name on this list as soon as possible after he / she has been born. This helps with forward planning, enables the school to contact parents easily as the time to start school approaches, but does not guarantee a place at the school.

Parents unsure about the school's catchment area or the criteria for entry should contact the Local Authority's Pupil Admissions Department - 01443 281111 or e-mail schooladmissions@rctcbc.gov.uk

https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/SchoolsandLearning/SchoolAdmissions/SchoolAdmissionsNotesofGuidanceforParentsCarers.aspx

Y Cwricwlwm a Dulliau Addysgu *The Curriculum and Teaching Methods*

Ysgol Gymraeg yw ein hysgol ni a disgwylir i bob disgybl ac aelod o staff ddefnyddio'r iaith trwy'r dydd, bob dydd. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu sy'n cymryd i ystyriaeth y Maes dan sylw, anghenion unigol, diddordebau a thalentau arbennig y disgyblion. Yn Ngham Cynnydd 1, dysgu trwy brofiadau ymarferol fydd y disgyblion. Yng Ngham Cynnydd 2, mae'r addysgu yn gyfuniad o brofiadau ymarferol ynghyd â dysgu ac addysgu mwy ffurfiol ac erbyn Cam Cynnydd 3 addysgir yn fwy ffurfiol ar y cyfan. Ar draws yr Ysgol, ceir sesiynau i ddysgu y sgiliau Iaith a Maths yn y boreau fel rheol, a gwaith thematig o dan y 6 Maes Dysgu a Phrofiad bob prynhawn. Yn dibynnu ar natur y dasg/ gweithgaredd, caiff y disgyblion eu grwpio o fewn dosbarthiadau mewn nifer o ffyrdd yn ôl y galw. Gall yr athro/athrawes newid y grwpiau ar gyfer rhai gweithgareddau i sicrhau bod yr unigolyn yn gwneud ei orau glas ar bob achlysur. Ar draws yr ysgol, datblygir sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm trwy ddilyn y fframweithiau perthnasol. Y Pedwar Diben sydd wrth wraidd ein cwricwlwm a dyma yw ein dyhead ar gyfer pob disgybl.

Our school is a Welsh medium school and all pupils and staff members are expected to use the language in their daily routines all day, every day. The Curriculum is delivered using a variety of teaching methods best suited to the subject, the individual needs, interests and ability of the children. In Progression Step 1, children are taught through practical experiences. In Progression Steps 2 the teaching is a mixture of practical and more formal activities and by Progression Step 3, the teaching style is generally more formal. Across the school, Maths and Language skills are generally taught in morning sessions and thematic work following the 6 Areas of Learning and Experience in the afternoons. Depending on the nature of the task / activity, pupils are grouped and taught in several ways. The teacher may change these groups for certain activities to ensure the pupils always work at their best. Across the school, literacy, numeracy and digital competency skills are developed cross-curricularly by following the relevant frameworks. The Four Purposes are at the heart of our curriculum and this is our aspiration for all our learners.



Strwythur y Dosbarthiadau *Class Structures*

Trefnir pob dosbarth yn yr ysgol tua diwedd y flwyddyn addysgol a hysbysir rhieni o ddosbarthiadau newydd eu plant pan ddosberthir Adroddiadau Cynnydd Blynyddol fis Gorffennaf bob blwyddyn. Mae niferoedd a threfniadau'r dosbarthiadau yn dibynnu ar y nifer o blant Blwyddyn 6 fydd yn ein gadael ni a'r nifer o blant oedran Meithrin fydd yn ymuno â ni. Trefnir y disgyblion gan ddilyn y meini prawf oedran geni. Bydd dosbarthiadau oedran cymysg ar draws yr ysgol ar adegau a nid yw'n bosibl sicrhau y bydd grwpiau / dosbarthiadau o blant yn symud gyda'i gilydd o un dosbarth i'r llall ar gyfer y flwyddyn addysgol newydd.

Class structures are discussed and planned towards the end of each academic year and parents are informed of their children's new classes when Annual Progress Reports are distributed during the month of July each year. Pupil numbers and class organisation depends on the number of Year 6 pupils leaving the school and the number of Nursery aged children joining us. The classes are arranged using the children's date of birth as the criteria. There will always be mixed age group classes throughout the school and it is not possible to guarantee that the groups of children / classes move on block, together to the next class for the ensuing academic year.

Cam Cynnydd 1 *Progression Step 1*	**Meithrin** *Nursery* **Derbyn** *Reception*
Cam Cynnydd 2 *Progression Step 2*	**Blwyddyn 1** *Year 1* **Blwyddyn 2** *Year 2* **Blwyddyn 3** *Year 3*
Cam Cynnydd 3 *Progression Step 3*	**Blwyddyn 4** *Year 4* **Blwyddyn 5** *Year 5* **Blwyddyn 6** *Year 6*

Strwythur y Dosbarthiadau / Class Structures | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Cwricwlwm i Gymru

CRYNODEB CLWSTWR LLANHARI

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae cynllunio ein cwricwlwm wedi bod yn sgwrs barhaus rhwng holl randdeiliaid ein hysgolion i sicrhau ei fod yn ddilys i'n disgyblion ac yn adlewyrchu anghenion a chyd-destun ein cymunedau. Mae'r dysgwyr wedi bod yn ganolog i'r broses a'u barn yn annatod. Rydym hefyd wedi ymgysylltu â'n cymunedau ehangach, wedi casglu barn ein rhieni a gofalwyr yn ogystal â'n llywodraethwyr drwy holiaduron a chyfarfodydd.

Fel clwstwr, mae trafodaethau wedi bod yn allweddol er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar hyd y continwwm. Byddwn yn parhau i hysbysu ein rhanddeiliaid o unrhyw ddatbygiadau ac yn cynnig cyfleoedd cyson iddynt gynnig sylwadau. Byddwn hefyd yn parhau i fanteisio ar ystod o arbenigwyr o'r gymuned i gyfrannu at y dysgu a darparu profiadau unigryw a chyfoethog i'n disgyblion.

Cynnwys ein Cwricwlwm

Y **Pedwar Diben** sydd wrth wraidd ein cwricwlwm a dyma yw ein dyhead ar gyfer bob un o'n dysgwyr. Mae cwricwlwm ein hysgolion yn eang, cytbwys a chynhwysol ac yn addas i ddysgwyr o wahanol oedrannau, galluoedd a doniau. Mae'n cynnwys cyfleoedd dysgu o fewn ac ar draws bob un o'r **Chwe Maes Dysgu a Phrofiad** ac yn cwmpasu'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig. Wrth wireddu'r cwricwlwm, byddwn yn meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith ynghyd ag addysg hawliau dynol ac amrywiaeth. Rhown ystyriaeth lawn hefyd i **elfennau gorfodol** y Cwricwlwm, sef Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), Cymraeg a Saesneg. Mae **sgiliau trawsgwricwlaidd** llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'u hymwreiddio drwy'r cwricwlwm a sicrhewn fod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu, mireinio a chymhwyso'r sgiliau yma ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.

Cynnydd ac Asesu

Cynnydd o fewn dysgu yw'r broses o ddatblygu a gwella sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dros amser. Yr **Egwyddorion Cynnydd** yw'r sylfaen i'n cwricwlwm o fewn y clwstwr. Yn ogystal â hyn, mae'r **Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig** a'r **Disgrifiadau Dysgu** yn rhoi arweiniad ar sut y dylai ein dysgwyr symud ymlaen ar draws ein continwwm dysgu.

Asesu yw'r broses o edrych ar gynnydd ein dysgwyr. Fel clwstwr, hoffem i'n dysgwyr wybod ble maen nhw ar eu taith ddysgu, i ble mae angen iddyn nhw fynd, a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i gyrraedd yno. Rydym yn cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd trwy asesu ar gyfer dysgu yn ogystal â nodi cynnydd dysgwyr unigol dros amser.

Adolygu ein Cwricwlwm

Trwy ein prosesau hunanwerthuso cadarn a thryloyw byddwn yn parhau i adolygu a mireinio ein cwricwlwm er mwyn cryfhau ein dysgu ac addysgu a sirhau cynnydd i bob dysgwr unigol. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein dysgwyr ac yn adlewyrchu ein hegwyddorion.

Byddwn yn gweithio o fewn ein hysgolion, ar draws ein clwstwr ac mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid i ddatblygu ymhellach ein dealltwriaeth gyffredin o gynnydd a fydd yn sicrhau continwwm dysgu 3-16 o'r ansawdd orau. Bydd llais y dysgwr yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein prosesau hunan arfarnu.

Curriculum for Wales

LLANHARI CLUSTER SUMMARY

Stakeholder Engagement

Planning our curriculum has been an ongoing conversation between all stakeholders within our schools to ensure that it is relevant for our pupils and reflects the needs and contexts of our communities. The learners have been central to the process and their views integral. We have also engaged with our wider communities, gathered the views of our parents and carers as well as our governors through questionnaires and meetings.

As a cluster, discussions have been key in order to ensure consistency for learners along the continuum. We will continue to inform our stakeholders of any developments and offer them regular opportunities to contribute. We will also continue to take advantage of a range of experts from the community to contribute to the learning and provide unique and enriching experiences for our pupils.

Curriculum Content

The **Four Purposes** are at the heart of our curriculum and this is our aspiration for all of our learners. Our schools' curriculum is broad, balanced and inclusive and suitable for learners of different ages, abilities and talents. It includes learning opportunities within and across each of the **Six Areas of Learning and Experience** and covers the statements of what matters. In realising the curriculum, we will foster our learners' understanding of careers education and experiences linked to the world of work, together with human rights and diversity education. We will also give full consideration to the **mandatory elements** of the curriculum, namely Religion, Values and Ethics (RVE), Relationships and Sexuality Education (RSE), Welsh and English. The **cross-curricular skills** of literacy, numeracy and digital competence are e mbedded throughout the curriculum and we ensure that there are enough opportunities for pupils to develop, refine and apply these skills across the areas of learning and experience.

Progression and Assessment

Progress within learning is the process of developing and improving skills, knowledge and understanding over time. The **Principles of Progression** are the foundation of our curriculum within the cluster. In addition to this, the **Statements of What Matters** and **Descriptions of Learning** provide guidance on how our learners should progress across our learning continuum.

Assessment is the process of looking at the progress of our learners. As a cluster, we would like our learners to know where they are on their learning journey, where they need to go, and what they need to do to get there. We support individual learners continuously, day by day, by using assessment for learning as well as identifying individual learners' progress over time.

Reviewing our Curriculum

Through our robust and transparent self-evaluation processes, we will continue to review and refine our curriculum in order to strengthen our teaching and learning and ensure progress for each individual learner. This will ensure that it meets the needs of our learners and reflects our principles.

We will work within our schools, across our cluster and in partnership with our stakeholders to further develop our common understanding of progress which will ensure a 3-16 learning continuum of the highest quality. Learner voice will continue to play a key role in our self-evaluation processes.

Y Pedwar Diben

Galluog Uchelgeisiol	Iach Hyderus	Mentrus Creadigol	Egwyddorol Gwybodus

12 o Egwyddorion Addysgeg

Mae addysgu a dysgu da yn canolbwyntio'n gyson ar ddibenion cyffredinol y cwricwlwm	Mae addysgu a dysgu da yn rhoi her i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd	Mae addysgu a dysgu da yn galw am ddefnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys addysgu uniongyrchol	Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol	Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb	Mae addysgu a dysgu da yn creu cyd-destunau dilys ar gyfer dysgu	Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu	Mae addysgu a dysgu da yn ymestyn oddi mewn ac ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad	Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer	Mae addysgu a dysgu da yn cynnell plant a phobl ifanc i gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain	Mae addysgu a dysgu da yn hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol	Mae addysgu a dysgu da yn hybu cydweithio

Sgiliau Cyfannol

Creadigrwydd Arloesedd	Meddwl yn Feirniadol Datrys Problemau	Effeithiolrwydd Personol	Cynllunio a Threfnu
• Annog cyflwyno gwybodaeth a chanfyddiadau mewn ffyrdd creadigol ac arloesol, a dychmygu dyfodol posib yn seiliedig ar y dystiolaeth. • Annog bod yn agored i wahanol syniadau a ffyrdd o feddwl, gan alluogi mynegi barn resymedig ynghylch y gwahaniaethau hyn.	• Datblygu'r gallu i feddwl yn ddadansoddol a deall y gorffennol a'r presennol yn ogystal â dychmygu dyfodol posib. • Casglu, myfyrio a gwerthuso'n feirniadol y defnydd o ffynonellau a thystiolaeth.	• Annog gwaith tîm a bod yn gyfrannwr dibynadwy trwy drefnu a gweithredu ymholiadau. • Gwerthuso, cyfiawnhau a mynegi ymatebion ystyriol mewn amrywiol ffyrdd.	• Annog cynllunio a threfnu ymchwiliadau, gosod nodau, amcanion a meini prawf, casglu a defnyddio ystod o dystiolaeth, a myfyrio ar ddulliau.

Maesydd Dysgu a Phrofiad a'r Egwyddorion Cynnydd

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Mathemateg a Rhifedd	Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Iechyd a Lles	Y Dyniaethau	Celfyddydau Mynegiannol

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Llythrennedd	Rhifedd	Cymhwysedd Digidol
• Datblygu llafaredd trwy drafodaeth, chwarae rôl, cwestiynu a chyflwyniadau, ac addasu sgiliau llafaredd ar gyfer cynulleidfa a diben tra'n gwrando ar, a dadlau, gwahanol safbwyntiau. • Datblygu pob arddull ysgrifennu, e.e. disgrifio, esbonio, trafod, gwerthuso ac ysgrifennu creadigol, ynghyd â defnyddio terminoleg a geirfa sy'n benodol i'r ddisgyblaeth. • Sicrhau mynediad ac archwilio ystod o destunau o amrywiol leoedd a chyfnodau er mwyn dadansoddi tystiolaeth, meddwl yn feirniadol, dod i gasgliad, a gwerthuso dehongliadau a safbwyntiau.	• Datblygu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau byd go iawn gan gynnwys casglu data rhifol, trwy ddulliau ymchwil cynradd ac eilaidd. • Dadansoddi a chynrychioli data mewn amrywiol ffyrdd. • Cefnogi datblygiad rhifedd drwy roi cyfarwyddiadau cyfeiriadol manwl gywir wrth ddarllen map neu ddatblygu eu mapiau a'u llwybrau eu hunain. • Ymwneud â chysyniadau megis ymwybyddiaeth gronolegol a graddfa.	• Datblygu sgiliau digidol mewn meysydd megis defnyddio systemau gwybodaeth ddigidol (gan gynnwys systemau gwybodaeth ddaearyddol), defnydd o ffynonellau digidol, meddalwedd i ddadansoddi a chyflwyno data ansoddol a meintiol. • Archwilio effaith technoleg ddigidol ar gymdeithasau a'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir yn yr oes ddigidol.

Themau Trawsgwricwlaidd

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol	Gyrfaoedd a phrofiadau yn gysylltiedig â gwaith	Addysg Hawliau Dynol	Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)	Amrywiaeth

The Four Purposes

Ambitious Capable	Healthy Confident	Enterprising Creative	Ethical Informed

12 Pedagogical Principles

Fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, rydym yn cynnig gwersi codio sy'n helpu disgyblion i ddatblygu sgiliau llythrennedd digidol a datrys problemau. Trwy weithgareddau hwyliog gan ddefnyddio llwyfannau addas fel Scratch a Micro:bit, mae dysgwyr yn archwilio iaith codio wrth wella eu sgiliau cyfathrebu a meddwl rhesymegol. Mae'r gwersi hyn yn cefnogi datblygiad aml-lythrennedd, gan annog creadigrwydd, cydweithio a hyder wrth ddefnyddio technoleg fel offeryn i fynegi a dyfeisio. *As part of the Languages, Literacy and Communication AoLE, school offers coding lessons that help pupils develop essential digital literacy and problem-solving skills. Through engaging activities using age-appropriate platforms such as Scratch and Micro:bit, learners explore the language of code while enhancing their communication and logical thinking. These lessons support the development of multiliteracies, encouraging creativity, collaboration, and confidence in using technology as a tool for expression and innovation.*

Iechyd a Lles *Health and Wellbeing*

Iechyd a Lles y Corff *Physical Health and Wellbeing*



Rydym yn helpu dysgwyr i ddeall sut i ofalu am eu cyrff a gwneud dewisiadau iach sy'n cefnogi llesiant gydol oes. Trwy wersi a gweithgareddau ymgysylltiol, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth ac arferion da o ran maeth, gweithgarwch corfforol, gofal personol a gorffwys. Ein nod yw grymuso pob plentyn i feithrin hyder wrth reoli eu hiechyd corfforol, gan gydnabod y cysylltiad cryf rhwng lles corfforol a gwytnwch emosiynol. *We help learners understand how to take care of their bodies and make healthy choices that support lifelong wellbeing. Through engaging lessons and activities, pupils develop knowledge and habits around nutrition, physical activity, personal care, and rest. We aim to empower every child to build confidence in managing their physical health, while also recognising the strong link between physical wellbeing and emotional resilience.*

Profiadau, Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol *Experiences, Mental Health and Emotional Wellbeing*



Rydym yn cefnogi dysgwyr i ddeall a rheoli eu meddyliau, eu teimladau a'u hymddygiad mewn amgylchedd diogel a chynhaliol. Trwy amrywiaeth o brofiadau, mae disgyblion yn datblygu llythrennedd emosiynol, gwytnwch a strategaethau i gefnogi eu hiechyd meddwl. Ein nod yw helpu pob plentyn i feithrin perthnasoedd cadarnhaol, mynegi eu hunain yn hyderus, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ymdopi â heriau bywyd. *We support learners to understand and manage their thoughts, feelings and behaviours in a safe and nurturing environment. Through a range of experiences, pupils develop emotional literacy, resilience and strategies to support their mental health. We aim to help every child build positive relationships, express themselves confidently, and develop the skills needed to navigate life's challenges.*

Penderfyniadau a Gweithredoedd *Decisions and Actions*



Rydym yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae eu dewisiadau a'u hymddygiad yn effeithio ar eu lles eu hunain ac ar les pobl eraill. Anogir disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus a chyfrifol mewn sefyllfaoedd bob dydd, gan ddatblygu hyder, empathi a synnwyr cryf o gyfrifoldeb personol a chymdeithasol. Mae hyn yn eu cefnogi i ddod yn ddinasyddion ystyriol ac actif yn eu cymunedau ac ymhellach. *We help learners understand how their choices and behaviours affect their own wellbeing and the wellbeing of others. Pupils are encouraged to make informed, responsible decisions in everyday situations, developing confidence, empathy and a strong sense of personal and social responsibility. This supports them to become thoughtful, active citizens in their communities and beyond.*

Dylanwadau Cymdeithasol *Social Influences*



Rydym yn helpu dysgwyr i archwilio sut y gall perthnasoedd, y cyfryngau, diwylliant a chymdeithas ddylanwadu ar eu gwerthoedd, eu hymddygiad a'u llesiant. Anogir disgyblion i feddwl yn feirniadol am y byd o'u cwmpas, datblygu perthnasoedd parchus, a deall effaith pwysau cyfoedion a normau cymdeithasol. Mae hyn yn eu cefnogi i wneud dewisiadau cadarnhaol a gwybodus mewn byd sy'n newid yn barhaus. *We help learners explore how relationships, media, culture and society can influence their values, behaviours and wellbeing. Pupils are encouraged to think critically about the world around them, develop respectful relationships, and understand the impact of peer pressure and social norms. This supports them to make positive, informed choices in a changing world.*

Cydberthnasau Iach *Healthy Relationships*

Rydym yn dysgu y disgyblion am bwysigrwydd meithrin a chynnal perthnasoedd parchus, cefnogol a diogel. Mae disgyblion yn archwilio sut mae ymddiriedaeth, cyfathrebu ac empathi yn cyfrannu at ryngweithiadau cadarnhaol ag eraill. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i ffurfio cyfeillgarwch a pherthnasoedd iach drwy gydol eu bywydau. *We teach learners the importance of building and maintaining respectful, supportive and safe relationships. Pupils explore how trust, communication and empathy contribute to positive interactions with others. This helps them to develop the confidence and skills needed to form healthy friendships and relationships throughout their lives.*



Trafnidiaeth Ysgol School Transport



Bydd yr Awdurod Lleol yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion o oderan Ysgol gorfodol sy'n mynychu ysgolion cynradd sy'n byw 1.5 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf. Os bydd cwestiwn neu gŵyn ynghylch trafnidiaeth, dylai rhieni gysylltu ag Adran Drafnidiaeth yr Awdurdod ar 01443 425001. Disgwylir yr ymddygiad gorau posibl ar bob achlysur gan bob disgybl sy'n teithio ar fws i'r ysgol. *The Local Authority provides free home to school transport for learners of compulsory school age attending primary school who live 1.5 miles or further from their nearest suitable school. If any query or complaint arises regarding transportation, parents should contact the Authority School Transport Division on 01443 425001. The best possible behaviour is expected from all pupils travelling to and from school on the bus at all times.*

Prydau Ysgol *School Meals*



Disgwylir i holl blant yr Ysgol sy'n llawn amser aros yn yr ysgol yn ystod yr awr ginio. Paratoir prydau bwyd poeth neu frechdanau gan staff y gegin, neu gall disgyblion ddod â chinio pecyn i'r ysgol os bydd y rhiant yn dymuno. Yn ystod yr awr ginio, mae tîm o Goruchwylwyr amser cinio profiadol yn gofalu am y plant gan sicrhau ymddygiad da, diogelwch a gweinyddu cymorth cyntaf fel bo angen. Ceir ffurflenni cinio am ddim o swyddfa'r ysgol. Os oes alergedd bwyd gan unrhyw ddisgybl, cyfrifoldeb y rhiant ydyw i sicrhau fod yr ysgol yn ymwybodol ac i ofyn am fwydlen arbennig i gael ei llunio. Rhaid i'r ysgol dderbyn llythyr meddygol, swyddogol er mwyn llunion bwydlen arbennig. Ceir mwy o fanylion am hyn o Swyddfa'r ysgol os oes angen. *All full-time pupils are expected to remain on the school premises during the lunchbreak. Hot meals and sandwiches are prepared for the pupils by the kitchen staff, or pupils can bring a packed lunch to school if parents so wish. During the lunchbreak pupils are supervised by a team of trained and experienced supervisory assistants who ensure good conduct, pupil safety and administer first aid whenever necessary. Free school meals forms are available from the school clerk. Should any pupil have food allergies, it is the parent's responsibility to ensure that school is made aware of this and to request a special menu is drawn up in consultation with the Catering Department at the Local Authority. School must receive an official, medical letter confirming any allergies before a menu can be drawn up. More details can be sought from the School Office should this be necessary.*

Llaeth *Milk*



Bydd plant oedran Meithrin i Flwyddyn 2 yn cael 1/3 peint o laeth y dydd yn rhad ac am ddim. Os oes gan eich plentyn alergedd i laeth, gallwch anfon potel fach o ddŵr yn ei le, gall eich plentyn gael dŵr gan yr ysgol neu gall yr ysgol archebu llaeth arbennig os dymunwch. *Pupils of Nursery to Year 2 age receive 1/3 of a pint of milk each day free of charge. If your child has an allergy to milk, you can send a small bottle of water in its place, your child will be given water in school or school is able to order special milk should you request it.*

Salwch a Damweiniau *Illness and Accidents*



Os na fydd eich plentyn yn teimlo'n hwylus, gwnawn ein gorau glas i gysylltu â chi. Os bydd yn dioddef yn wael yn sgil damwain, cysylltwn â chi cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl rhoi Cymorth Cyntaf. Mewn argyfwng, bydd aelod o staff yn cysylltu â 999 cyn cysylltu â chi. Os bydd eich plentyn yn taro pen yn ddifrifol, byddwn yn cysylltu â chi ar unwaith i drafod hyn gyda chi neu i ofyn i chi ddod i'r ysgol i'w gasglu/chasglu. *If your child feels unwell, we shall do our best to contact you for you to collect your child from school. If your child suffers a serious injury, we shall contact you as soon as possible after giving first aid. In case of emergency, a member of staff will dial 999 first and then contact you. If your child suffers any type of head injury, we shall contact you immediately to discuss this or to ask you to collect your child.*

Rhoi Meddyginiaeth *Administering Medicines*



Os oes angen moddion ar eich plentyn, dylech gysylltu ag athro neu athrawes eich plentyn i drafod hyn. Mae gan yr ysgol bolisi Gofal Iechyd sydd ar gael yn yr ysgol neu yn yr ardal 'Rhieni' ar wefan yr ysgol. Mae'r polisi yma yn amlinellu'r camau a gweithdrefnau i'w dilyn os bydd angen i ddisgybl gymryd moddion. *If your child needs to take any medication, you should initially contact your class teacher about this. School has a Healthcare Policy which is available to view at school or there is a copy in the 'Parents' section of the school's website. This policy outlines the steps and procedures to take should any pupil need to take medication.*

Iechyd a Diogelwch *Health and Safety*



Cyfrifoldeb y Pennaeth, Staff yr Ysgol, y Llywodraethwyr a Gofalwr yr ysgol yw hyn. Bydd yr aelodau hyn yn cynnal archwiliad blynyddol ac asesiad risg o'r ysgol a bydd y Gofalwr yn tynnu sylw'r Pennaeth at unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol o ddydd i dydd. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr ar gyfer pob agwedd o weithgareddau'r ysgol ar gael i'w ddarllen yn swyddfa'r Ysgol. Mae gan yr ysgol bolisi E-ddiogelwch hefyd sydd yn sicrhau diogelwch y disgyblion wrth iddynt ddefnyddio TGCh ar draws yr ysgol. Nid yw'n bosibl i unrhywun gael mynediad i'r adeilad heb gael caniatad gan fod pob drws a chlwyd ar glo yn ystod y dydd. *This is the responsibility of the Head Teacher, School Staff, the Board of Governors and the school Caretaker. All three parties will carry out an annual inspection and risk assessment of the school and the Caretaker will report to the Head on any work which needs to be done from day to day. A comprehensive Health and Safety Policy for all aspects of the school's activities is made available for you to read at school. A robust E- Safety policy is also in place in school to ensure pupils' safety whilst using ICT throughout the school. It is not possible for anyone to gain access to the building during the school day without permission since all external doors and gates are locked during the day.*

Cwynion *Complaints*



Os bydd cwyn neu broblem gennych, fe'ch anogir i gysylltu â'r aelod o staff perthnasol yn bersonol, trwy lythyr / ebost neu alwad ffôn i drafod y broblem. Os na fyddwch yn hapus gyda'r canlyniad, gofynnir i chi gysylltu â'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth er mwyn ymchwilio i'r gŵyn ymhellach a datrys y broblem. Os nad ydych yn fodlon gyda'r canlyniad gallwch ysgrifennu at Gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu er mwyn i'r Bwrdd Llywodraethu gwrdd i ddod i benderfyniad. Gallwch ofyn am gael derbyn copi llawn o Bolisi Cwynion yr ysgol yn y swyddfa neu ceir copi ar wefan yr ysgol. *If you have a problem or a complaint, we advise you to contact the relevant member of staff in person, by letter / email or phone call in order that your complaint be dealt with. If you are unhappy with the outcome, you may contact the Head Teacher or Deputy Head Teacher for them to investigate the complaint further and resolve the problem. If you are still unhappy with the outcome, you may write to the Chairperson of the Board of Governors so that the Board of Governors may meet to come to a decision. A full copy of the school's Complaints Policy is available on the school website or from the office by request.*

Cyfleoedd Cyfartal *Equal Opportunities*



Sicrhawn fod pob disgybl a mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys, eu bod nhw'n cael bob cyfle i ddatblygu'n foesol ac yn gymdeithasol ac eu bod a mynediad cyfartal i adnoddau'r ysgol heb ystyried rhyw, gallu corfforol, cefndir, cred a gallu addysgol. Mae Polisi Cyfleoedd Cyfartal cynhwysfawr ar gael yn yr ysgol. *We ensure that every child has access to a broad and balanced curriculum, is given every opportunity to develop both morally and socially and has equal access to the school's resources regardless of gender, physical ability, background, religion or educational ability. A comprehensive Equal Opportunities Policy is available at the school.*

Darpar Rieni *Prospective Parents*



Caiff darpar rieni eu gwahodd i gysylltu â'r ysgol dros y ffôn i drefnu ymweliad yn ystod oriau ysgol ar adeg sy'n gyfleus i bawb. Trefnir cyfres o ddyddiadau ar ddechrau'r flwyddyn addysgol ar gyfer sesiynau i ymweld â'r ysgol. Dewch o hyd i'r dyddiadau hyn ar wefan yr ysgol. Cyn i'r plant ddechrau yn y Dosbarth Meithrin am y tro cyntaf, gwahoddir darpar rieni i gyfarfodydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn cyn i'r plentyn ddechrau, y cyntaf yn ystod Tymor yr Haf, fel arfer. *Prospective parents are invited to contact the school by phone to arrange a visit during school hours at a time that is convenient for everyone. At the beginning of the school year, a series of dates are arranged for sessions to visit the school. These can be found on the school website. Before the children start in the Nursery Class for the first time, prospective parents are invited to meetings at the school during the year before their child commences at the school, the first meeting during the Summer Term, usually.*

Ymweld â'r Ysgol *Visiting the School*



Croesawn ymweliadau gan rieni â'r ysgol i drafod unrhyw bryderon ynghylch eu plentyn/plant neu i holi neu gwyno am fater arall. Byddai'n ddoeth i gysylltu â'r ysgol dros y ffôn er mwyn gwneud apwyntiad. Am resymau diogelwch, gofynnir i bawb sy'n ymweld â'r ysgol fynd i Brif Fynedfa yr Ysgol. *We welcome visits to the school by parents wishing to discuss any concerns regarding their child / children or to inquire or complain about another matter. It is advisable to contact the school over the telephone to make an appointment. For security reasons, all visitors to the school are requested to report to the School's Main Reception.*

Ffônau Symudol *Mobile Phones*



Ni chaniateir i ddisgyblion ddefnyddio ffônau symudol ar safle yr ysgol am nifer o resymau e.e. y temtasiwn i'w defnyddio fel 'arf' i 'fwlio' disgyblion neu rhag ofn i'r eiddo gwerthfawr hwn fynd ar goll neu gael ei dorri. Os oes angen ffonio adref, dylai disgyblion ddweud hynny wrth eu hathrawon a gofyn caniatâd i fynd i swyddfa'r ysgol. Os bydd disgybl angen ffôn symudol ar gyfer gweithgaredd ar ôl ysgol, dylai roi y ffôn symudol i'w athro/athrawes i gadw yn ddiogel tan ddiwedd y dydd. *The school does not allow pupils to use mobile phones on the school site for several reasons e.g. the temptation to use it as a 'tool' to 'bully' pupils or in case a valuable item, such as the mobile phone, should be lost or broken. If it is necessary to ring home, pupils should inform their teacher and ask permission to go to the school office. If a pupil needs to take a mobile phone to an event after school, the phone should be handed to the Teacher for safe keeping until the end of the school day.*

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon *Parent and Teacher Association*

Bydd aelodau'r GrhA yn cwrdd yn aml yn ystod y flwyddyn. Mae croeso i unrhyw un â diddordeb fynychu y cyfarfodydd yma. Hysbysir rhieni trwy ebost neu lythyr ynghylch y cyfarfodydd. Trefnir ystod eang o weithgareddau i hybu bywyd cymdeithasol yr ysgol a'i theuluoedd yn ogystal â chodi elw i brynu offer i'r Ysgol. Hefyd, dyma gyfle i rieni newydd ddod i adnabod rhieni eraill yr ysgol.

Members of the PTA meet regularly throughout the year. Anyone interested is welcome to attend these meetings. Parents are informed of forthcoming meetings by email or letter through the school. A wide range of events are arranged to enhance the social life of the school and its families as well as to raise funds to purchase equipment for the school. Also, this provides an ideal opportunity for new parents to get to know other parents at the school.

Absenoldebau y Disgyblion *Pupil Absences*



Mae presenoldeb y disgyblion yn dda iawn yn YGGG Llantrisant. Polisi'r Awdurdod Lleol a'r ysgol yw bod rhaid rhoi gwybod i'r ysgol am absenoldeb plentyn ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb trwy alwad ffôn a phob diwrnod wedi hynny nes y bydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol. Yn ogystal, cedwir cofnod yn swyddfa'r Ysgol o'r amseroedd mae disgyblion hwyr yn cyrraedd. Bydd disgyblion sy'n hwyr yn gyson yn gweld y manylion ar eu cofnod presenoldeb blynyddol. Nodir unrhyw absenoldeb nad ydym yn derbyn esboniad amdano fel ABSENOLDEB HEB GANIATAD.

Pupil attendance is very good at YGGG Llantrisant. It is the policy of the Local Authority and the school that the school should be informed of a pupil's absence on the first day through a telephone call and then every day thereafter until the pupil returns to school. A record of pupils arriving late and the times they arrive is kept in the school office. Persistent lateness will show on a child's yearly attendance record. Any absence for which the school receives no explanation will be noted as an ***UNAUTHORISED ABSENCE****.*

Cwyno am y Cwricwlwm *Complaints About the Curriculum*

O dan adran 409 Deddf Addysg 1996, gall rhieni gael gwybodaeth am y cwricwlwm neu wneud cwyn ffurfiol trwy wneud apwyntiad i drafod â Phennaeth yr Ysgol, ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethol a/neu Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant RCT. Mae Polisïau a Dogfennau yn gysylltiedig â phob pwnc ar gael yn yr Ysgol.

Under section 409 of the 1996 Education Act, parents can access information about the curriculum or make a formal complaint through making an appointment to discuss matters with the Head Teacher of the school, writing to the Chair of the Governing Body and / or RCT's Director of Education and Inclusion Services. Policies and Documents relating to all subjects are available at the school.



Clybiau Carco cyn ac ar ôl Ysgol *Before and After School Clubs*

Enw'r Clwb *Name of Club*	Lleoliad *Location*	Amseroedd *Times*	Manylion Cyswllt *Contact details*
Clwb Brecwast RCT (am ddim) **Meithrin i Flwyddyn 6** *RCT Breakfast Club (free)* *Nursery to Year 6*	**Neuadd yr Ysgol** *School Hall*	**8:10 yb**/*am* **8:50 yb**/*am*	**Swyddfa'r Ysgol** *School Office* **01443 237837** admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru
Clwb Brecwast Bydis Brecwast (am ffi) *Breakfast Buddies Club (chargeable)*	**Yr Ystafell Gymunedol** *School Community Room*	**7:30 yb**/*am* **8:50 yb**/*am*	**Mrs A Davies** **07907 650854** Bydisbrecwast@gmail.com
Clwb Y Ddraig (am ffi) *'Clwb Y Ddraig' (chargeable)*	**Yr Ystafell Gymunedol** *School Community Room*	**3:40 yp**/*pm* **5:30 yp**/*pm*	**Mrs M Davies** **07769 622582** clwbyddraig@outlook.com

Cyn ac Ar ôl Ysgol / Before and After School | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Cysylltiadau â Rhieni a'r Gymuned *Parental and Community Links*

Cred yr ysgol yn gryf mewn coleddu cysylltiadau agos gyda rhieni yn ogystal â'r gymuned i hyrwyddo datblygiad y disgyblion. Cysylltwn â rhieni mewn nifer o fyrdd yn ystod y flwyddyn e.e:

- **Llythyron / ebyst rheolaidd yn hysbysu rhieni**
- **negeseuon testun / ap**
- **gwefan yr ysgol**
- **nosweithiau agored i drafod cynnydd disgyblion**
- **gwaith cartref neu dasgau cartref/ysgol**
- **taflen dymhorol yn hysbysu rhieni ynghylch gwaith i'w astudio gan y dosbarth**
- **llyfryn cyswllt darllen cartref/ysgol**
- **adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd y plentyn**
- **cyngherddau Nadolig**
- **cyngherddau Tymor yr Haf**

Cefnogir yr Ysgol gan nifer o asiantaethau yn ogystal – Heddlu De Cymru, Y Gwasanaeth Tân a'r Gwasanaeth Iechyd.

The school firmly believes in fostering close links with parents in addition to the community to enhance pupil development. We have contact with parents in a range of forms during the year:

- *regular letters / emails to inform parents*
- *text / app messaging service*
- *school website*
- *'open' evenings to discuss pupil progress*
- *homework or home / school tasks*
- *termly information sheet for parents regarding class work to be studied*
- *home / school reading contact booklet*
- *written reports on pupil progress*
- *Christmas concerts*
- *Summer Term concerts*

In addition, the school is supported by several agencies – South Wales Police, The Fire Service and The Health Service.

Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd *Transition to Secondary School*

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant yn nhalgylch Ysgol Llanhari ynghyd ag Ysgol Gynradd Dolau ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. Bu cysylltiad agos rhwng Ysgol Llanhari a'n hysgol ni am dros ddeng mlynedd ar hugain. Mae disgyblion sy'n trosglwyddo i Lanhari ar ôl ein gadael ni yn deilwng i drafnidiaeth am ddim yn unol â pholisi trafnidiaeth yr Awdurdod Lleol.

Yn ystod Tymor yr Hydref fel arfer bydd aelodau staff Ysgol Llanhari, gan gynnwys y Pennaeth, Dirprwy Benaethiaid ac Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7 yn ymweld â'n hysgol ni i gyflwyno yr ysgol i ddarpar rieni a disgyblion Blwyddyn 6. Er mwyn sicrhau bod disgyblion hŷn yr Ysgol yn setlo i mewn i'w hamgylchfyd newydd yn Ysgol Llanhari yn gyflym, trefnir nifer o ymweliadau iddynt yn ystod eu blwyddyn olaf gyda ni. Rhydd hyn gyfle iddynt ddod yn gyfarwydd â'r adeilad, nifer o'r staff, y daith mewn bws i'r ysgol, trefniadau amser cinio yn ogystal â threfn gyffredinol y diwrnod mewn ysgol uwchradd. Trefnir ymweliad i rieni y disgyblion hŷn hefyd yn ystod Tymor yr Haf. Hefyd yn ystod Tymor yr Haf, daw aelodau staff Ysgol Llanhari i'n hysgol ni i gwrdd â'r disgyblion ac i drafod eu safonau cyrhaeddiad, cymeriadau, grwpiau ffrindiau, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ogystal ag unrhyw anawsterau eraill gyda'u hathro/hathrawes dosbarth er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn y cymorth a'r gefnogaeth y mae'n deilwng iddo o'r diwrnod cyntaf yn yr ysgol newydd.

Cynghorir unrhyw riant sydd yn pryderu ynghylch unrhyw fater yn ymwneud â'u plentyn / plant yn trosglwyddo i gysylltu gydag Ysgol Llanhari yn uniongyrchol i wneud apwyntiad i drafod â'r staff perthnasol. Y rhif ffôn yw 01443 237824.

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant is in the catchment area for Ysgol Llanhari along with Dolau Primary School and Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail. There has been a close link between us and Ysgol Llanhari for over thirty years. Pupils who transfer to Ysgol Llanhari are entitled to free school transport in line with the Local Authority's School Tranpsort Policy.

Usually during the Autumn Term members of staff from Ysgol Llanhari, including the Headteacher, Deputy Headteachers and the Head of Year 7 visit our school to present Ysgol Llanhari to prospective parents as well as Year 6 pupils. To ensure that senior pupils at the school settle into their new environment at Ysgol Llanhari quickly, several visits are arranged for them during their last year with us. This affords them the opportunity to become familiar with the building, staff, the journey to school on the bus, lunchtime arrangements in addition to general arrangements in a secondary school. A visit is also arranged for the parents of these children during the Summer Term. Also, during the Summer Term members of staff from Ysgol Llanhari visit our school in order to meet pupils and discuss their standard of achievement, characters, friendship groups, Additional Learning Needs (ALN) in addition to any other difficulties with their class teacher in order to ensure that every pupil entitled to support receives it from their first day in the new school.

Parents with concerns regarding their child / children transferring are advised to contact Ysgol Llanhari directly to make an appointment to discuss matters with the relevant members of staff. The telephone number for Ysgol Llanhari is 01443 237824

Asesu ac Adrodd yn ôl *Assessment and Reporting*

Yn YGGG Llantrisant, rydym yn glir mai diben asesu yw cefnogi pob dysgwr unigol i symud ymlaen yn briodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Mae tair prif rôl i asesu yn y broses o alluogi dilyniant dysgwyr:

- **cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus, o ddydd i ddydd,**
- **nodi, cipio a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser,**
- **deall cynnydd grŵp er mwyn myfyrio ar arfer.**


Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy arsylwi, asesu a chofnodi parhaol yr athrawon dosbarth. Bydd yr athrawon yn datblygu strategaethau a ddulliau cyfredol sy'n ymwneud ag asesu ffurfiannol gan gynnwys darparu adborth o ansawdd uchel i ddysgwyr, hunanasesu ac asesu cyfoedion. Wrth gynllunio a darparu profiadau dysgu, byddant yn glir ynghylch pam a sut y defnyddir y ddealltwriaeth a gafwyd o bob gweithgaredd asesu i lywio dysgu yn y dyfodol.

Hefyd, gweinyddir ystod o brofion safonol ar draws yr ysgol drwy gydol y flwyddyn. Pwrpas gweinyddu y profion hyn yw helpu'r athrawon i sicrhau cynnydd, neu adnabod anawsterau disgyblion unigol yn eu dosbarthiadau yn ogystal â sicrhau parhad o safonau cyrhaeddiad uchel yr ysgol. Gweinyddir y profion a ganlyn yn yr ysgol ar hyn o bryd:

- **Asesiad 'Ar-Fynediad' - Derbyn (Tymor yr Hydref)**
- ***Dyslexia Early Screening Test (DEST)* - Derbyn - (Tymor yr Hydref)**
- **Language Link - Deall iaith sylfaenol - Derbyn (Tymor y Gwanwyn)**
- **Prawf Mathemateg 'N.F.E.R.' – Disgyblion Blwyddyn 1 (Tymor yr Haf)**
- **Prawf Darllen Cymru Gyfan – Disgyblion Blwyddyn 1 (Tymor yr Haf)**
- **Prawf Sillafu Cymraeg 'Glannau Menai' - Disgyblion Blwyddyn 1 i 6 (Tymor yr Hydref a Thymor yr Haf)**
- **Prawf Sillafu Saesneg Safonol -Schonell - Disgyblion Blwyddyn 3 i 6 (Tymor yr Hydref a Thymor yr Haf)**
- **Asesiadau Personol Cenedlaethol Rhifedd - Gweithdrefnol - Blwyddyn 2 i 6 (Tymor yr Hydref a Thymor Haf)**
- **Asesiadau Personol Cenedlaethol Rhifedd - Rhesymu - Blwyddyn 2 i 6 (Tymor yr Hydref a Thymor Haf)**
- **Asesiadau Personol Cenedlaethol Darllen Cymraeg - Blwyddyn 2 i 6 (Tymor yr Hydref a Thymor Haf)**
- **Asesiadau Personol Cenedlaethol Darllen Saesneg - Blwyddyn 4 i 6 (Tymor yr Hydref a Thymor Haf)**

Yn ogystal â'r profion uchod, bydd disgyblion sydd yn derbyn cymorth ychwanegol gan athrawon arbenigol, e.e. Cymorth Iaith neu Gymorth ar gyfer Anawsterau Penodol, yn derbyn profion eraill yn gyson. Cynhelir nosweithiau 'agored' yn yr Ysgol er mwyn rhoi'r cyfle i'r athrawon adrodd-yn-ôl yn llafar i rieni ynghylch cynnydd eu plentyn / plant, yn ystod Tymor yr Hydref er mwyn nodi sut y mae'r plentyn wedi setlo yn ei ddosbarth newydd, ac yn ystod mis Mawrth / Ebrill tuag at ddiwedd Tymor y Gwanwyn. Bydd pob rhiant ar draws yr ysgol yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar gynnydd a datblygiad eu plentyn tuag at ddiwedd y flwyddyn ysgol (mis Gorffennaf).

Egwyddorion allweddol a diben asesu



Asesu ac Adrodd yn ôl *Assessment and Reporting*

At YGGG Llantrisant, we are clear that the purpose of assessment is to support each individual learner to progress at an appropriate pace, ensuring they are supported and challenged accordingly. Assessment has three main roles in the process of enabling learner progression:

- *supporting individual learners on an ongoing, day-to-day basis*
- *identifying, capturing and reflecting on individual learner progress over time*
- *understanding group progress to reflect on practice.*


This is done through continuous observation, assessment and recording by class teachers. They will develop strategies and approaches relating to formative assessment including providing high quality feedback to learners, self- assessment and peer-assessment. When planning and delivering learning experiences, they will be clear about why and how the understanding gained from each assessment activity will be used to inform future learning.

Also, a range of standardised tests are administered throughout the year. The purpose of administering these tests is to enable teachers to ensure progress or identify individual pupils within their classes with difficulties in addition to ensuring the continuation of high standards of achievement. The following tests are administered at the school presently:

- *'On-entry' Assessment - Reception (Autumn Term)*
- *Dyslexia Early Screening Test (DEST) - Reception - (Autumn Term)*
- *Language Link - Understanding of basic language – Reception (Spring Term)*
- *'N.F.E.R. Mathematics Test' – Year 1 (Summer Term)*
- *All Wales Welsh Reading Test – Year 1 (Summer Term)*
- *Welsh Spelling Test 'Glannau Menai' - Year 1 to 6 (Autumn Term and Summer Term)*
- *Standardised English Spelling Test -Schonell - Year 3 to 6 (Autumn Term and Summer Term)*
- *National Numeracy Personalised Assessments - Procedural - Year 2 to 6 (Summer and Autumn Term)*
- *National Numeracy Personalised Assessments - Reasoning - Year 2 to 6 (Summer and Autumn Term)*
- *National Reading Personalised Assessments - Welsh - Year 2 to 6 (Summer and Autumn Term)*
- *National Reading Personalised Assessments - English - Year 4 to 6 (Summer and Autumn Term)*

In addition to the tests mentioned above, pupils receiving additional support e.g. Language Support or Support for Specific Learning Difficulties will be given other tests on a regular basis. 'Open' evenings are held at the school to give teachers the opportunity to report verbally to parents on the progress and development of their child / children, during the Autumn Term to note how well the child has settled into the new class, and during March/April towards the end of the Spring Term. Every parent across the whole school will receive a written report on pupil progress and development towards the end of the school year (July).

Key principles and purpose of assessment



Gweithgareddau All-gyrsiol *Extra-curricular Activities*

Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant ystyrir bod gweithgareddau all-gyrsiol yn hanfodol i ddatblygiad y plentyn cyfan. Rhydd hyn gyfle i'n disgyblion ddatblygu sgiliau cyfathrebu a chymdeithasu ymhellach drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir ystod o weithgareddau cyffrous sy'n codi hunan-barch, parch tuag at eraill, ehangu profiadau, datblygu hyder a rhannu llwyddiant yn ogystal â derbyn methiant. Credwn yn gryf fod llwyddiant mewn gweithgareddau all-gyrsiol o fudd mawr yn yr ystafell dosbarth yn ogystal. Mae canran uchel o ddisgyblion yn mynychu clybiau ar ôl ysgol. Diolchwn yn fawr i'r aelodau o staff sy'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn cynnal y clybiau hyn. Dyma'r math o glybiau a gynigir yn yr ysgol:



- **Sgiliau pêl-droed / Sgiliau rygbi / Sgiliau pêl-rwyd / Clwb Criced**
- **Côr**
- **Senedd yr Ysgol**
- **Clwb Posau**
- **Clwb Creadigol**
- **Aelwyd yr Urdd**
- **Ymarferion ar gyfer Eisteddfod yr Urdd (Tymor y Gwanwyn a Thymor yr Haf) ***

***Bydd angen i ddisgyblion ymaelodi â'r Urdd yn flynyddol er mwyn cystadlu (tua £10.00 y flwyddyn)**

Caiff disgyblion Blwyddyn 6 sydd yn aelodau o'r Urdd gyfle i fwynhau penwythnos o weithgareddau cyffrous yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog yng nghwmni eu ffrindiau a'u hathrawon yn ogystal â disgyblion o ysgolion eraill o dalgylch Ysgol Llanhari unwaith y flwyddyn.

At Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant extra-curricular activities are considered as vital to the development of the whole child. It gives our pupils the opportunity to further develop communication and social skills through the medium of Welsh. A range of exciting activities is offered, that raise self-respect, respect towards others, broaden experiences, develop self-esteem and confidence and share success as well as accept disappointment. We firmly believe that success experienced in extra-curricular activities provides great dividends in the classroom situation also. A large percentage of Key Stage 2 pupils attend after school clubs. We greatly appreciate those members of staff who freely and voluntarily give of their time to hold these clubs. The clubs usually offered at the school are noted below:



- *Football skills / Rugby skills / Netball skills / Cricket Club*
- *Choir*
- *School Council*
- *Puzzle Club*
- *Creative Club*
- *'Urdd' Club*
- *Rehearsals for the Urdd Eisteddfod (Spring Term and Summer Term) **

Pupils will need to join the Urdd annually to compete (around £10.00)

Pupils in Year 6 who are Urdd members have an opportunity to enjoy an action-packed weekend at the Urdd Youth Centre, Llangrannog in the company of their friends and teachers as well as pupils from other schools within the Ysgol Llanhari catchment area once a year.



Gwersi Offerynol *Instrumental Lessons*



Cynigir gwersi offerynnol i blant Blwyddyn 3 i 6 megis gwersi telyn, offeryn llinynnol (ffidil neu soddgrwth) neu offeryn pres yn yr ysgol gan Wasanaeth Cerdd RCT. Bydd rhieni yn derbyn gwybodaeth yn flynyddol ynghylch sut i dalu am y gwersi hyn. Yn ogystal â'r gwersi uchod a ddarperir gan Wasanaeth Cerdd RCT, gall yr ysgol gynnig gwersi ar ystod ehangach o offerynnau eraill trwy gwmni preifat 'C.A.V.M.S.' (Cardiff and Vale Music Service) i ddisgyblion Blwyddyn 3 i 6. Mae costau'r gwersi yn amrywio yn ôl hyd y gwersi, ac fe fydd angen prynu neu logi offeryn i'r disgybl. Cynigir gwersi ar yr offerynnau a ganlyn ar hyn o bryd yn yr ysgol: piano a gitâr.

Gwersi Offerynnol / Instrumental Lessons | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant (secure-primarysite.net)

School offers instrumental tuition to Year 3 to 6 pupils namely harp, stringed instruments (violin or cello) or a brass instrument through RCT's Music Service. Parents receive information annually as to the cost and availability of these lessons. In addition to the tuition mentioned above provided by RCT Music Service, the school can offer a wider range of instrumental tuition through a private company 'C.A.V.M.S.' (Cardiff and Vale Music Service) to pupils in Years 3 to 6. The cost of the tuition depends on the length of the lessons, and it will be necessary to purchase or hire an instrument for the pupil. Currently, the following instrumental tuition is offered at the school: piano and guitar.

Gwersi Offerynnol / Instrumental Lessons | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant (secure-primarysite.net)

CERDD Gwasanaeth • Service MUSIC Rhondda Cynon Taf

Cardiff and Vale Music Service cavms

Ymweliadau Addysgol *Educational Visits*

Trefnir ymweliadau addysgol y tu allan i'r ysgol i ddisgyblion bob tymor fel arfer er mwyn hyrwyddo gwaith y dosbarth ac ehangu profiadau disgyblion unigol. Bydd dosbarthiadau yn ymweld â safleoedd hanesyddol e.e. 'Sain Ffagan', amgueddfeydd, sioeau, a'r pantomeim Cymraeg blynyddol. Ystyrir bod yr ymweliadau hyn yn rhan bwysig o'r cwricwlwm ac annogir pob disgybl i fynd ar yr ymweliadau. Bydd yr ysgol yn gofyn yn garedig am gyfraniad ariannol tuag at gostau'r ymweliadau hyn. Bydd Arweinydd Ymweliadau Addysgol yr ysgol a/neu'r athro/athrawes dosbarth yn gwneud 'asesiad risg' cyn unrhyw ymweliad y tu allan i ffin yr ysgol. Trefnir hefyd i gwmnïau drama ymweld â'r ysgol yn achlysurol i berfformio sioeau i'r disgyblion yn Neuadd yr Ysgol. Fel arfer, rhoir o leiaf pythefnos o rybudd i rieni ynghylch ymweliadau. Bydd pob ymweliad wedi ei yswirio a chyda lefelau mwy na digonol o oruchwyliaeth gan ddilyn canllawiau a chyngor yr Awdurdod Lleol.



Educational visits outside the school are usually arranged for pupils each term to enhance the class work and increase individual pupils' experience. Classes visit historic sites such as 'St. Fagans', museums, shows, and the annual Welsh pantomime. These visits are considered to be an important part of the curriculum, and every pupil is encouraged to go on the visits. The school kindly asks for a financial contribution towards these visits. The School's Educational Visits Leader and / or class teacher carry out a risk assessment prior to all visits outside the school site. On occasions the school also arranges for drama companies to visit the school to perform shows for pupils in the School Hall. Usually, parents receive at least a fortnight's notice of a proposed visit. All visits are insured and have more than sufficient levels of supervision in line with Local Authority guidelines and advice.

Polisi Codi a Dileu Taliadau *Charging and Remissions Policy*

Trefnir ymweliadau addysgol yn dymhorol i ddisgyblion. Gofynnwn i rieni am gyfraniad tuag at gostau yr ymweliadau hyn. Byddwn yn annog holl ddisgyblion yr Ysgol i ymaelodi â'r Urdd yn flynyddol (oddeutu £10.00 y flwyddyn i'w dalu ym mis Medi). Hefyd trefnir benwythnos yn Llangrannog i ddisgyblion Blwyddyn 6 (costau tua £190 heb gynnwys arian poced).

Yn ystod Tymor yr Hydref, adeg y Nadolig, ac ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, cynhelir cyngherddau yn Neuadd yr ysgol. Byddwn yn codi pris rhesymol am docynnau i rieni a pherthnasau eraill ddod i weld y cyngherddau hyn. Defnyddir yr elw a wneir at les y plant i gyd - efallai i brynu rhagor o offer i'r dosbarth a / neu i dalu am fysiau ar gyfer gwibdeithiau yn ystod y flwyddyn.

Ni fydd yr ysgol yn codi tâl am fynd â disgyblion mewn bysiau i chwaraeon yn erbyn ysgolion eraill neu bencampwriaethau, nac i'r eglwys leol ar gyfer gwasanaethau arbennig yn ystod y flwyddyn. O bryd i'w gilydd, fe fyddwn yn gofyn am gyfraniad tuag at berfformiadau yn yr Ysgol gan gwmniau drama, theatr bypedau neu weithdai Technoleg neu Wyddoniaeth ac ati sy'n ymweld yn achlysurol.

Cynghorwn unrhyw deuluoedd sydd â phroblemau ynghylch cyfrannu tuag at ymweliadau a chostau eraill yn ymwneud â'r ysgol i gysylltu â'r Pennaeth i drafod.

Educational visits are arranged for all pupils each term. We ask parents for a contribution towards the cost of these visits. We encourage all our pupils across the school to join the Urdd annually (approximate cost £10.00 usually paid in September). Also, pupils in Year 6 spend a weekend in Llangrannog during September (approximate cost £190 not including pocket money).

At Christmas, during the Autumn Term, and at the end of the school year, concerts are held in the School Hall. We shall charge a reasonable amount for tickets for parents and other relatives to see these concerts. Any proceeds made will be used for all the children's benefit - maybe to purchase additional equipment and / or buses for visits during the year.

The school will not charge to transport pupils to and from games, matches and tournaments, or to and from the local church for special assemblies during the year. From time to time, we shall ask for a small contribution for performances by theatre or puppet companies or Technology or Science workshops visiting the school on occasions during the year. Any families experiencing difficulties regarding making payments for any of the school related costs mentioned above should contact the school to make an appointment to discuss matters with the Head Teacher.



Y Defnydd o'r Iaith Gymraeg *The Use of the Welsh Language*



Rydym yn falch iawn eich bod wedi dewis addysgu eich plentyn / plant mewn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Ein nod fel ysgol ydy sicrhau bod pob plentyn:

- **yn ddwyieithog**
- **yn falch eu bod nhw yn Gymry Cymraeg ac**
- **wedi dysgu am hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru.**

I sicrhau llwyddiant, gofynnwn i chi am eich cydweithrediad a'ch ymrwymiad i hybu yr iaith Gymraeg y tu allan i'r ysgol trwy annog eich plentyn / plant i siarad Cymraeg â'u ffrindiau neu berthnasau y tu allan i'r ysgol ac i wylio y rhaglenni teledu Cymraeg sydd ar eu cyfer ar sianel 'S4C'. Efallai y bydd rhai ohonoch â diddordeb mewn dysgu siarad Cymraeg yr un pryd â'ch plentyn / plant. Trefnir nifer o gyrsiau Cymraeg i oedolion yn lleol. Am ragor o fanylion holwch yn yr ysgol, neu gysylltwch â Phrifysgol Morgannwg - Gwersi Cymraeg i Oedolion / Adult Welsh Lessons | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Yn yr Ysgol, cyflwynir yr iaith Gymraeg i bob disgybl o'r diwrnod cyntaf yn y dosbarth Meithrin - geirfa a chymalau syml i ddechrau i fagu dealltwriaeth, wedyn brawddegau mwy cymhleth pryd y disgwylir ymateb. Ni fyddwn yn anwybyddu iaith y cartref, ond yn raddol yn ystod y flwyddyn gyntaf bwysig, bydd y plant yn magu hunan-hyder ac yn dibynnu llai ar eu mam-iaith.

Yn ystod y flwyddyn 'Meithrin' bydd y disgyblion yn ymarfer sgiliau 'cyn-darllen' fel adnabod synau a'u symbolau, ac ymarfer ffurfio llythrennau yn barod ar gyfer ysgrifennu yn y dosbarthiadau eraill yng Ngham Cynnydd 1 a 2 (plant rhwng 3 a 6 oed). Bydd y plant yn datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yn unig o oedran Meithrin i Flwyddyn 3. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol ar ddiwedd Cam Cynnydd 2 (Blwyddyn 3) i blant 7 i 11 oed. Addysgir bob pwnc arall ar draws yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Disgwylir i'r plant siarad Cymraeg ym mhob ardal o safle yr ysgol ac wrth chwarae â'u ffrindiau ar y meysydd chwarae yn ystod y cyfnodau chwarae yn ogystal â'r awr ginio. Gwneir pob ymdrech gan yr ysgol i gyflogi aelodau staff cynorthwyol sydd â dealltwriaeth o'r Gymraeg neu yn siarad Cymraeg yn rhugl. Cynhyrchir holl ddogfennaeth, llythyron a gohebiaeth yr ysgol yn ddwy-ieithog. Gall rieni ddewis iaith (Cymraeg neu Saesneg) ar gyfer yr adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd disgyblion a ddosberthir yn flynyddol.

We are very pleased that you have chosen to educate your child / children in a Welsh medium School. Our aim as a school is to ensure that every child:

- *is bilingual*
- *is proud to be Welsh and Welsh speaking and*
- *has learned some of the history and experienced some of the traditions and culture of Wales.*

To ensure success, some commitment and co-operation on the parents' behalf is needed to promote the Welsh language outside the school through encouraging your child / children to speak Welsh with their friends or relatives and watch Welsh television programmes available to them on 'S4C'. Perhaps some parents would be interested in learning Welsh as the same time as their child / children. Many Welsh courses for adults are arranged locally. For further information contact the School or Glamorgan University - Gwersi Cymraeg i Oedolion / Adult Welsh Lessons | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

At the School, Welsh is introduced to every pupil from the first day in the Nursery class - words and phrases in the beginning to gain an understanding of the language followed by lengthier more complex sentences when a response is expected. The child's "home" language is not disregarded but, gradually during the first important year, children gain self-confidence and depend less on their "home" language.

During the Reception Year, pupils develop pre-reading skills such as recognising sounds and their symbols and practise forming letters in preparation for writing. All other subjects are taught through the medium of Welsh throughout the school.

Pupils are expected to speak Welsh with their friends and members of staff in all areas of the school and during playtimes and lunchtimes. The school makes every effort to employ support staff that understand and/or speak Welsh fluently. All documentation, letters and information from the school is produced bilingually. Parents can choose the language (Welsh or English) of the final written report on pupil progress distributed annually to parents.

Ceisia'r ysgol godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r byd gwaith er mwyn annog hunan-ddibyniaeth a meithrin blaengarwch, mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys cyfleoedd i chwarae rôl i'r plant e.e. cornel cartref, y caffi, siop anifeiliaid anwes, asiantaeth deithio, a.y.y.b. fel rhan o'r cwricwlwm i'r plant lleiaf. Yn ogystal, trefnir ymweliadau gan gwnstabl o Heddlu De Cymru i drafod pynciau fel 'Pobl sy'n ein Helpu' (e.e. meddygon, athrawon, swyddogion diffodd tân, cwnstabl yr heddlu).

Trefnir ymweliadau â busnesau lleol i'r plant hŷn yn yr ysgol a'u hathrawon er mwyn helpu'r plant i ddechrau deall diwydiant a'r economi. Caiff y disgyblion ym Mlwyddyn 6 flas ar 'entrepreneuriaeth' trwy brosiect yn ystod eu hymweliad ag Ysgol Llanhari ym mis Hydref. Byddant yn gweithio mewn grwpiau bach yn Adran Dechnoleg yr ysgol ac yn cynllunio, gwneud eitem i'w werthu, cynhyrchu cynllun busnes a marchnata, a.y.y.b.

Cefnoga'r ysgol golegau hyfforddi ac ysgolion cyfun lleol, a byddwn yn aml yn derbyn disgyblion a myfyrwyr i'r ysgol ar brofiad gwaith neu ymarfer dysgu am gyfnodau sy'n amrywio o un wythnos i ddau dymor o hyd. Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol gysylltiadau â Choleg Penybont, Coleg y Cymoedd, Ysgol Llanhari a Phrifysgol Metripolitan Caerdydd.

The school strives to raise pupils' awareness of the world of work to encourage self-reliance and nurture self- confidence, in a variety of ways including opportunities for role-play for pupils e.g. home corner, the café, the pet shop, travel agency etc. as part of the curriculum for the younger pupils. In addition, visits are arranged by a Constable with South Wales Police to discuss topics such as "People who help us" (e.g. doctors, teachers, fire officers, police constables).

Visits for the older pupils at the school and their teachers are arranged to local businesses to help them begin to understand Industry and the Economy. Pupils in Year 6 have a taste of "entrepreneurship" through participating in a project during the Autumn term during their visit to Ysgol Llanhari. They work in small groups in the Technology department of the school, planning and making an item to sell and producing a business and sales plan etc.

The school supports training colleges and local secondary schools and will often welcome pupils and students to the school on work experience or teaching practice for periods ranging between one week and two terms in length. At present, the school has links with Bridgend College, Coleg y Cymoedd, Ysgol Llanhari and Cardiff Metropolitan University.

Coleg Penybont
Bridgend College

Coleg y
Cymoedd

GORAU GWASANAETH GWAITH

Cardiff
Metropolitan
University


Data Presenoldeb *Attendance Data*

Cyfnod *Period*: 04.09.23 - 31.08.24

Disgyblion o fewn Ystod Dyddiad Geni *Pupils in DOB Range*: 01.09.08 - 31.08.19

		Absenoldebau â Chaniatâd *Authorised Absences*			Absenoldebau Heb Ganiatâd *Unauthorised Absences*		
Dosbarth *Group*	**Cyfanswm y Disgyblion** *Total No. of Pupils*	**Nifer o Ddisgyblion** *No. of Pupils*	**% o Ddisgyblion** *% of Pupils*	**% o Sesiynau** *% of Sessions*	**Nifer o Ddisgyblion** *No. of Pupils*	**% o Ddisgyblion** *% of Pupils*	**% o Sesiynau** *% of Sessions*
D / *R*	22	21	95.5	4.5	12	54.5	1.3
1	27	27	100.0	3.8	11	40.7	0.5
2	17	16	94.1	4.9	7	41.2	0.5
3	30	26	86.7	3.6	11	36.7	0.3
4	38	38	100.0	4.1	18	47.4	0.6
5	32	32	100.0	5.9	19	59.4	0.6
6	29	29	100.0	5.9	17	58.6	1.0
Ysgol *School*	256	253	98.8	2.9	131	51.2	0.8

Blwyddyn Academaidd *Academic Year*	**2018 - 2019**	**2019 - 2020**	**2020 - 2021**	**2021 - 2022**	**2022 - 2023**	**2023 - 2024**
Targed *Target*	96.9%	97.0%	97.4%	97.4%	95.2%	94.6%




YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG
LLANTRISANT